

Tasg 2

Cerdyn coch i hiliaeth

1. Ar ôl gwyllo'r fideo, 'Show racism the red card', eglurwch beth oedd profiadau'r bobl ganlynol a beth oedd eu cynghorion i'r rhai sy'n dioddef o hiliaeth:

1. **John Barnes**
2. **Ryan Giggs**
3. **Freddie Eastwood**
4. **Didier Drogba**
5. **Dean Aston**

2. Ysgrifennwch baragraff yn mynegi'ch barn am y ffaith fod 'Show Racism the Red Card' yn canolbwyntio ar bêl-droed.

3. Ar ôl darllen yr erthygl a'r cyfweiliad a gwylio'r clip fideo, ysgrifennwch bortread o Anthony Walker. Soniwch am ei ddiddordebau a'i obeithion a dywedwch sut gymeriad oedd e.

4. Ysgrifennwch lythyr at deulu Anthony Walker. Dyma rai pwyntiau y gallech eu hystyried:

- Oes gennych chi rywbeth yn gyffredin gydag Anthony?
- Ydych chi'n edmygu'r teulu am allu maddau?
- Sut byddech chi'n gallu codi eu calon?
- Oes gennych chi syniad ynglŷn â rhywbeth allai gael ei gynnwys yng Ngŵyl flynyddol Sefydliad Walker er mwyn annog pobl ifanc i barchu eu gwahaniaethau?

5. Ysgrifennwch e-bost at ffrind sy'n byw yn Awstralia yn dweud eich barn chi ar hiliaeth ym Mhrydain. Ydyn ni'n gwneud môr a mynydd ohono neu oes problem go iawn? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.